

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllun Busnes- a gynhaliwyd ar nos Iau, 5ed o Ragfyr, 2019 yn Ffestri Pencaenewydd am 7:45 y.h. yn dilyn y prif gyfarfod.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Aled Lloyd Evans, (Cadeirydd); Anwen Jones, (Is gadeirydd); Sion Aled Jones; a'r Clerc.

1.Ymddiheuriadau.

Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr Aled Davies, a Tegid Jones.

Ar y rhaglen.

2. Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Busnes gynhaliwyd ar 3ydd o Hydref, 2019.

3. Cyllideb 2019/20 a throsolwg o wariant y Cyngor hyd yma. Cafwyd adroddiad manwl o'r union wariant hyd yma (roedd taflenni wedi cael eu rhannu drwy ebost o flaen y cyfarfod ac yn ystod y cyfarfod) ac fe'i cymharwyd gyda'r gyllideb a bennwyd. Y cadeirydd yn llofnodi'r ffurflen 'excel' oedd yn dangos:-

- Y gyllideb arian / gwariant hyd at 31.03.2020
- Y gyllideb llif arian cyfrif arian budd-cymunedol Lightsource hyd at 05.12.2019
- Y gyllideb arian / gwariant (amcangyfrif) am 2020-2021

Roedd rhain yn dangos amlinelliad o'r gwariant sydd i ddod cyn diwedd y flwyddyn ariannol, sef diwedd Mawrth 2020.

Ar 05.12.19 roedd y symiau isod yn y 3 cyfrif:-

Cyfrifon	£
Cyfrif cyfredol	17,956.95
Cyfrif Budd cymunedol	2,183.41
Cyfrif cadw	4,576.06
Cyfanswm	24,716.42

4. Trafodwyd fod nifer o filiau angen ei talu, fel ag sydd ar y daflen 'excel'.

Fe ddaw ad-daliad am arian llwybrau hefyd gan Cyngor Gwynedd. Bydd angen i'r Clerc anfon llythyr at yr Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Dwyfor fis Ionawr 2020, i wneud cais am ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned.

5. Prosiectau posibl, neu wedi ymrwymo iddynt am y flwyddyn Ebrill 2020-2021:-

- Cyngor Gwynedd-toiledau Llanystumdwy - £2000.00 y flwyddyn
- Clirio tir y Cyngor ym Maenywern - heb ei wneud ers blynyddoedd.
- Tir y Cyngor Rhydybenllig - dim wedi ei wneud ers tro, ond efallai ei adael oherwydd yr adroddiad bioamrywiaeth.
- Wifi y 3 neuadd bob blwyddyn.

- Tocio caled ar y llwybrau - heb ei wneud eleni.
- Cadw safle bedd Lloyd George yn daclus - tua £250.00 bob blwyddyn.

6. **Arian Cyfraniad Budd-Cymunedol**, fferm solar Tyddyn Gwyn, Llangybi.

Wifi i Neuaddau Llanystumdwy, Chwilog a Llanystumdwy- heb gael biliau ganddynt eto, a bydd rhain yn cael ei talu o'r cyfrif Budd-cymunedol (Lightsource) cyn diwedd Mawrth 2020.

Hefyd wedi trefnu i brynu 5 hysbysfwrdd fydd yn cael ei gosod ddechrau 2020. Bydd rhain yn cael ei talu o'r cyfrif yma, sef £2832.00 yn cynnwys T.A.W.

Bydd angen gwneud taliadau tuag at fudiadau lleol hefyd, (tua £1000.00).

7. **Eisteddfod Genedlaethol**. - trafodwyd y mater, a faint ddylid ei roi tuag at yr Eisteddfod. Cytunwyd i drafod yr union ffigwr yn ein cyfarfod nesaf fis Ionawr 2020, fel bod y Cynghorwyr i gyd yn cael cyfle i leisio ei barn.

8. Trafodwyd y mater o godi'r **Praesept 2020-2021**, i £20,000.00, er mwyn talu cyfraniad sylweddol tuag at Eisteddfod Genedlaethol 2021. Mae wedi bod yn £15,000 ers sawl blwyddyn bellach. Penderfynwyd gwneud penderfyniad terfynol yn ein cyfarfod llawn ar 09.01.2020, er mwyn i'r cynghorwyr i gyd fedru gwneud penderfyniad.

9. **Penderfynu faint o arian y dylid ei glustnodi ar gyfer y ceisiau ariannol Chwefror 2020**. Cytunwyd i dalu ffigwr oddeutu £7,000.00 eleni, ond byddai angen trafod y cyfraniad i'r Eisteddfod Genedlaethol 2021 hefyd, felly gwneud penderfyniad terfynol yn ein cyfarfod llawn nesaf.

Yn ogystal fe rannwyd taflenni 'excel' ar y noson.